Polisi Diogelwch Ar-lein Caersalem

Caersalem Online Safety Policy

Cymraeg	English
EGLWYS Y BEDYDDWYR CAERSALEM, CAERNARFON	**CAERSALEM BAPTIST CHURCH, CAERNARFON**
1. Cyflwyniad	**1. Introduction**
Mae Eglwys y Bedyddwyr Caersalem yn cydnabod bod technoleg ddigidol, cyfathrebu ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer addoli, meithrin disgyblion, gofal bugeiliol, ymgysylltu â'r gymuned a chenhadaeth. Ar yr un pryd, mae'r eglwys yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg ym mhob maes o'i gweinidogaeth, gan gynnwys y gweithgareddau hynny sy'n digwydd ar-lein. Datblygwyd y polisi hwn gan ddefnyddio canllawiau ac arferion da a gyhoeddwyd gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol, ynghyd ag adnoddau a gynhyrchwyd gan yr NSPCC. Mae'n adlewyrchu'r egwyddorion ym Mholisi Diogelu'r eglwys a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r holl weithdrefnau diogelu a fabwysiadwyd gan yr eglwys. Diben y polisi hwn yw sicrhau bod pob gweithgaredd ar-lein sy'n gysylltiedig ag Eglwys y Bedyddwyr Caersalem yn cael ei gynnal yn ddiogel ac yn gyfrifol, ac mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd Cristnogol ac arferion gorau ym maes diogelu.	Caersalem Baptist Church recognises that digital technology, online communication and social media provide valuable opportunities for worship, discipleship, pastoral care, community engagement and mission. At the same time, the church acknowledges its responsibility to safeguard children, young people and adults at risk in all areas of its ministry, including those that take place online. This policy has been developed using guidance and good practice published by the Interdenominational Safeguarding Panel, together with resources produced by the NSPCC. It reflects the principles contained within the church's Safeguarding Policy and should be read alongside all safeguarding procedures adopted by the church. The purpose of this policy is to ensure that all online activity associated with Caersalem Baptist Church is undertaken safely, responsibly and in a manner consistent with Christian values and safeguarding best practice.
2. Cwmpas	**2. Scope**
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i arweinwyr, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr eglwys, ac i sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a grwpiau ar-lein yr eglwys. Mae'n cwmpasu'r cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu drwy e-bost, apiau negeseua, gwefannau'r eglwys, cyfarfodydd ar-lein, ffrydio byw, ffotograffiaeth a fideo, a storio gwybodaeth yn ddigidol.	This policy applies to leaders, trustees, volunteers and anyone acting on behalf of the church, and church social media channels, websites and online groups. It covers social media, email communication, messaging applications, church websites, online meetings, livestreaming, photography and video, and digital storage of information.
3. Egwyddorion Allweddol	**3. Key Principles**
Dylai pob gweithgaredd ar-lein a wneir ar ran yr eglwys hyrwyddo lles, adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol, bod yn dryloyw ac yn atebol, diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd, cydymffurfio â gofynion diogelu a diogelu data, a chynnal	All online activity undertaken on behalf of the church should promote welfare, reflect Christian values, be transparent and accountable, protect privacy and confidentiality, comply with safeguarding and data protection

Cymraeg	English
enw da'r eglwys.	requirements, and uphold the reputation of the church.
4. Cyfrifoldebau	**4. Responsibilities**
Mae'r Tîm Arwain, yr Ymddiriedolwyr, gweithwyr yr eglwys a gwirfoddolwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn, ceisio arweiniad gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol lle bo'n briodol, a sicrhau bod pryderon yn cael eu hadrodd ac yr eir i'r afael â nhw.	The Leadership Team, Trustees, church workers and volunteers share responsibility for implementing this policy, seeking guidance from the Interdenominational Safeguarding Panel where appropriate, and ensuring concerns are reported and addressed.
5. Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol yr Eglwys	**5. Church Website and Social Media**
Dim ond unigolion awdurdodedig a gaiff gyhoeddi cynnwys ar ran yr eglwys. Dylai'r cynnwys fod yn gywir, yn barchus ac yn gyfreithlon, a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.	Only authorised individuals may publish content on behalf of the church. Content should be accurate, respectful, lawful and protective of children, young people and adults at risk.
6. Ffotograffiaeth a Fideo	**6. Photography and Video**
Ceisir cydsyniad priodol lle bo'i angen. Fel arfer, ni fydd plant yn cael eu hadnabod wrth eu henwau llawn ochr yn ochr â ffotograffau. Gall rhieni dynnu eu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd.	Appropriate consent will be obtained where required. Children will not normally be identified by full name alongside photographs. Parents may withdraw consent at any time.
7. Ffrydio Byw ac Addoli Ar-lein	**7. Livestreaming and Online Worship**
Dylai oedfaon sy'n cael eu ffrydio'n fyw osgoi rhannu gwybodaeth bersonol sensitif a rhoi gwybod i'r rhai sy'n bresennol pan fydd recordio neu ddarlledu'n digwydd.	Livestreamed services should avoid sharing sensitive personal information and should inform attendees when recording or broadcasting is taking place.
8. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc	**8. Communication with Children and Young People**
Dim ond pan fo'r rhieni'n ymwybodol o'r cyfathrebu hwnnw y caiff gweithwyr yr eglwys a gwirfoddolwyr gyfathrebu'n electronig â phobl o dan 18 oed. Rhaid i'r cyfathrebu fod yn dryloyw, yn atebol ac yn gysylltiedig â gweithgareddau'r eglwys, a dylid defnyddio sianeli cymeradwy lle bynnag y bo modd.	Church workers and volunteers may only communicate electronically with persons under the age of 18 where there is parental awareness of that communication. Communication must be transparent, accountable, related to church activities and conducted through approved channels wherever possible.
9. WhatsApp, Apiau Negeseua a Sgyrsiau Grŵp	**9. WhatsApp, Messaging Apps and Group Chats**
Dylai fod gan grwpiau'r eglwys o leiaf ddau weinyddwr sy'n oedolion lle bynnag y bo modd, a dylent weithredu'n dryloyw ac yn atebol, gyda rhieni'n ymwybodol pan fo pobl ifanc yn rhan ohonynt.	Church groups should have at least two adult administrators wherever possible and operate with transparency, accountability and parental awareness where young people are involved.
10. Cyfarfodydd Ar-lein a Gweithgareddau Ieuenctid	**10. Online Meetings and Youth Activities**

Cymraeg	English
Dylai o leiaf ddau oedolyn fod yn rhan o weithgareddau plant ac ieuenctid a gynhelir ar-lein. Dylid rhoi gwybod i rieni a chadw cofnodion priodol.	At least two adults should be involved in children's and youth activities conducted online. Parents should be informed and appropriate records maintained.
11. Defnydd Personol o'r Cyfryngau Cymdeithasol	**11. Personal Social Media Use**
Dylai gweithwyr ac arweinwyr yr eglwys gynnal ffiniau priodol ar-lein ac ni chânt ddefnyddio cyfrifon personol i osgoi gweithdrefnau diogelu.	Church workers and leaders should maintain appropriate boundaries online and must not use personal accounts to bypass safeguarding procedures.
12. Ymateb i Bryderon Diogelu Ar-lein	**12. Responding to Online Safeguarding Concerns**
Ni ddylid anwybyddu pryderon. Dylid cadw gwybodaeth berthnasol a rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwr Diogelu ar unwaith. Gellir ceisio cyngor gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol lle bo'n briodol.	Concerns should not be ignored. Relevant information should be preserved and reported immediately to the Safeguarding Trustee. Advice may be sought from the Interdenominational Safeguarding Panel where appropriate.
13. Diogelu Data a Chyfrinachedd	**13. Data Protection and Confidentiality**
Rhaid trin gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn unol â GDPR y DU a'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data.	Personal information must be handled securely and in accordance with UK GDPR and relevant data protection legislation.
14. Rhoi Gwybod am Bryderon	**14. Reporting Concerns**
Dylid rhoi gwybod am bryderon i'r Ymddiriedolwr Diogelu neu'r Gweinidog. Os yw'r pryderon yn ymwneud â'r unigolion hynny, neu os yw rhywun yn teimlo na all godi pryderon o fewn yr eglwys, gellir ceisio cyngor yn uniongyrchol gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol.	Concerns should be reported to the Safeguarding Trustee or Minister. If concerns relate to those individuals or someone feels unable to raise concerns internally, advice may be sought directly from the Interdenominational Safeguarding Panel.
15. Cyngor Diogelu Allanol	**15. External Safeguarding Advice**
Mae Eglwys y Bedyddwyr Caersalem yn aelod o'r Panel Diogelu Rhyngenwadol a gall geisio arweiniad ynghylch pryderon diogelu, honiadau, arferion gweithio mwy diogel, materion diogelu ar-lein a datblygu polisïau.	Caersalem Baptist Church is a member of the Interdenominational Safeguarding Panel and may seek guidance regarding safeguarding concerns, allegations, safer working practices, online safeguarding issues and policy development.
16. Adolygu'r Polisi	**16. Policy Review**
Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r polisi hwn bob blwyddyn, neu'n gynt os bydd angen.	This policy will be reviewed annually by the Trustees or sooner if required.
Mabwysiadwyd gan: Dîm Arwain Eglwys y Bedyddwyr Caersalem ar 9 Medi, 2026	**Adopted by: Caersalem Baptist Church Leadership Team on 9 September, 2026**